# PWYLLGOR CYNLLUNIO DYDD IAU, 16 GORFFENNAF 2020

**Yn bresennol:** **Y Cynghorydd Elwyn Edwards – Cadeirydd**
**Y Cynghorydd Eric Merfyn Jones – Is Gadeirydd**

**Y Cynghorwyr:** Simon Glyn, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Huw G. Wyn Jones, Dilwyn Lloyd, Edgar Wyn Owen, Gareth A. Roberts, Eirwyn Williams, Gruffydd Williams ac Owain Williams

**Hefyd yn bresennol:** Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Cynllunio ac Amgylchedd), Cara Owen (Rheolwr Cynllunio), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr), Gareth Roberts (Uwch Beiriannydd Rheolaeth Datblygu), Gwawr Teleri Hughes (Swyddog Rheolaeth Datblygu), Dafydd Gareth Jones (Uwch Swyddog Cynllunio Mwynau a Gwastraff) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:** Cynghorwyr Annwen Daniels a Gareth Thomas (Aelodau Lleol)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Stephen Churchman a Louise Hughes

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL

a) Datganodd yr aelodau canlynol ei bod yn aelodau lleol mewn perthynas â'r eitemau a nodir:

Y Cynghorydd Gareth Thomas (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5.1 a 5.4 ar y rhaglen, (cais cynllunio rhif C20/0244/08/LL)

Y Cynghorydd Annwen Daniels (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5.2, 5.3 a 5.4 ar y rhaglen, (cais cynllunio rhif C20/0066/03/AC, C20/0067/03/AC a C20/0079/03/AC

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. COFNODION

Cadarnhawyd bod y cofnod yn gofnod priodol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar yr 2il o Orffennaf 2020.

## 5. CEISIADAU AM GANIATÂD CYNLLUNIO

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ceisiadau canlynol i ddatblygu. Ymhelaethwyd ar fanylion y ceisiadau ac ymatebwyd i gwestiynau mewn perthynas â'r cynlluniau ac agweddau o'r polisïau.

**6. CAIS RHIF C20/0244/08/LL TIR GER COMPOWND PENNAU SELIO GARTH, MINFFORDD, PENRHYNDEUDRAETH,**

Mae'r datblygiad canlynol wedi'i leoli o fewn ffiniau Awdurdod Cynllunio Lleol Cyngor Gwynedd: 1) Codi adeilad pen twnnel y Gorllewin (gan gynnwys y compownd adeiladu cysylltiedig) yn Garth ynghyd a thrac mynediad parhaol. Mae'r datblygiad canlynol wedi'i leoli o fewn ffiniau Awdurdod Cynllunio Lleol Parc Cenedlaethol Eryri: 2) Codi adeilad pen twnnel dwyreiniol (gan gynnwys y compownd adeiladu cysylltiedig), compownd selio pen a mynediad parhaol yn Cilfor: 3) Compownd selio pen newydd ar ochr ddwyreiniol Aber Dwyryd i gysylltu'r ceblau tanddaearol â'r llinell uwchben. Nid oes angen caniatâd cynllunio ffurfiol ar gyfer y datblygiad canlynol: Byddai'r cynigion hyn yn galluogi adeiladu twnnel tanddaearol i gynnwys ceblau trydan a chael gwared ar 10 peilon presennol a llinellau uwchben cysylltiedig ar draws Aber Dwyryd.

Tynnwyd sylw at y ffurflen sylwadau hwyr a dderbyniwyd

a) Ymhelaethodd y Rheolwr Cynllunio ar gefndir y cais gan nodi mai cais ydoedd yn ymwneud a phrosiect sydd, ers rhai blynyddoedd bellach, wedi cynnwys mewnbwn sylweddol gan swyddogion y Cyngor a rhanddeiliaid i'r prosiect a gyfeiriwyd ato fel Prosiect Darpariaeth Effaith Weledol (VIP). Adroddwyd bod y cynllun yn cael ei arwain gan y Grid Cenedlaethol sydd wedi ymgynghori'n helaeth gyda'r gymuned leol.

   Pwrpas y cynllun yw lliniaru'r effaith weledol mae seilwaith trydan presennol yn ei gael mewn tirwedd warchodedig o gwmpas y Ddwyryd drwy dynnu peilonau trydan i lawr rhwng Minffordd a Chilfor a thanddaearu'r gwifrau trydan am bellter o 3.5 km. Ategwyd bod cais cynllunio wedi ei gyflwyno i Awdurdod Cynllunio Cyngor Gwynedd ac i Awdurdod Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri er mwyn galluogi i'r ddau awdurdod wneud penderfyniadau ar y cais sydd yn berthnasol i'w hardaloedd. Tynnwyd sylw at baragraffau 1.17 - 1.23 yn yr adroddiad sydd yn rhoi disgrifiad bras o'r datblygiadau sydd yn destun cais o fewn y ddau Awdurdod ac at baragraffau 1.24 i 1.30 sydd, oherwydd natur eang a chymhleth y cynllun yn cyfeirio'r gofynion hynny sydd tu allan i faes cynllunio. Nodwyd bod Pwyllgor Cynllunio Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri eisoes wedi caniatáu

   Eglurwyd bod y bwriad yn golygu codi adeilad pen twnnel y Gorllewin (gan gynnwys y compownd adeiladu cysylltiedig) ynghyd a thrac mynediad parhaol. Er bod yr adeilad yn eithaf sylweddol, mae'n cymharu gydag adeilad amaethyddol o ran maint, uchder a dyluniad. Ategwyd bod Asesiad Gweledol a Thirwedd wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais sydd yn cynnwys manylion tirwedd ac effaith weledol gan gynnwys montage ffotograffig

   Ar sail y wybodaeth a'r cynlluniau a gyflwynwyd fel rhan o'r cais, ystyriwyd bod effeithiau hir dymor y bwriad yn dderbyniol o ran dyluniad, graddfa, deunyddiau, tirweddu ac effaith ar y dirwedd ac yn cydymffurfio a gofynion polisïau PCYFF 2, 3 a 4, AMG 2 a 3 o'r CDLl a NCT 12: Dylunio. Derbyniwyd y byddai'r cynllun yn ei gyfanrwydd yn achosi anhwylustod, sŵn, dirgryniad, llwch a thraffig yn ystod y gwaith dros dro o dwnelu ac adeiladu'r adeilad pen twnnel. Byddai'r elfennau hyn, sydd ddim yn faterion cynllunio yn destun trafodaeth a goruchwyliaeth gan Uned Gwarchod y Cyhoedd (sy'n delio gyda niwsans cyffredinol) a Chyfoeth Naturiol Cymru fydd yn trwyddedu'r gwaredu gwastraff.

   Cydnabuwyd y byddai'n anorfod fod datblygiad o'r fath am gael peth effaith ar fwynderau cyffredinol a phreswyl trigolion cyfagos ond yn yr hir dymor ni

fyddai'r bwriad yn andwyol ar fwynderau cyffredinol na phreswyl unrhyw drigolion cyfagos. O ystyried yr effeithiau tymor byr o weithredu'r caniatâd, amlygwyd bod modd rheoli ac/neu liniaru'r effeithiau i lefelau derbyniol drwy amodau cynllunio priodol. Nodwyd bod Uned Gwarchod y Cyhoedd wedi nodi oriau gwaith derbyniol ar gyfer y bwriad o adeiladu'r adeilad pen twnnel ac yn ychwanegol gellid amodi materion sŵn, llwch, traffig ac oriau gwaith, niwsans ayyb sy'n deillio'n uniongyrchol o'r datblygiad. Bydd yr ymgeisydd hefyd yn gallu diweddaru'r sefyllfa drwy gyflwyno diweddariad i'r Cynllun Rheoli Amgylchedd Adeiladau a fydd yn destun amod cynllunio. Wedi cwblhau'r gwaith tyllu ac adeiladu, byddai presenoldeb unrhyw staff yn achlysurol ar y safle.
Cadarnhawyd nad oedd gan yr Uned Drafnidiaeth ac Uned Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru wrthwynebiad i'r cais ac eisoes wedi sicrhau bod materion megis symud cyfarpar a gwastraff yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Rheoli Amgylchedd Adeiladu. Nodwyd bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cadarnhau bod y bwriad yn dderbyniol o ran risg ac effaith llifogydd a bod yr Uned Draenio Tir yn fodlon gyda'r gwaith ar y ffos.

Nodwyd bod gwybodaeth helaeth wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais yn ymwneud a materion Bioamrywiaeth, a bod hynny o ganlyniad i drafodaethau helaeth o flaen llaw rhwng yr Uned Bioamrywiaeth a'r Grid Cenedlaethol. Mae mesurau lliniaru a gwelliannau wedi eu cynnig ar gyfer y bwriad a byddai'r mesurau hyn yn cael eu hamodi er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau.

Er nad yw'r datblygiad yn cyrraedd trothwyon Polisi Strategol PS1 sydd yn hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ardal y Cynllun, mae Datganiad Iaith Gymraeg wedi ei gyflwyno a'i asesu gan y Gwasanaeth Iaith sydd yn fodlon gyda'r datganiad iaith hwnnw oherwydd natur y cais a'r gwaith dan sylw. Mae'n amlwg, o'r datganiad bod y Grid Cenedlaethol wedi ystyried pwysigrwydd y Gymraeg yn yr ardal ac yn ymwybodol iawn o'r angen i gyfathrebu yn ddwyieithog ac y byddant yn defnyddio gweithwyr lleol lle bo hynny yn bosib.

Er mwyn rhoi sicrwydd am agweddau o'r bwriad, ac oherwydd bod y cynllun yn ei gyfanrwydd yn fwy na'r hyn sy'n destun y cais yn unig a bod angen sicrhau nad oes effeithiau amgylchedd annerbyniol o ganlyniad i'r gwaith yma, bydd unrhyw ganiatâd cynllunio yn destun amod cynllunio i gyflwyno a chytuno Cynllun Rheoli Amgylchedd Adeiladu ar gyfer rheoli amryw o agweddau o'r gwaith. Bydd y materion hyn yn cael ei gytuno mewn ymgynghoriad gyda'r cyrff perthnasol yn dilyn rhoi unrhyw ganiatâd cynllunio.

O ystyried yr uchod ac wedi ystyried yr holl faterion cynllunio perthnasol yn llawn gan gynnwys polisïau a chanllawiau lleol a chenedlaethol.

b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nodwyd Cadeirydd y Grŵp Ymgynghori Rhanddeiliaid Annibynnol, ar ran yr ymgeisydd, y prif bwyntiau canlynol:-

- Ei fod yn gefnogol iawn i'r cynllun a'i fod wedi bod yn rhan ohono ers 6 mlynedd
- Y cynllun yn 1 o 4 o'i fath wedi ei ddewis fel cynllun amgen i wella tirweddau arbennig yng Nghymru a Lloegr
- Aberdwyryd yn ardal ysblennydd ond wedi ei ddifethaf gan beilonau a gwifrau trydan
- Byddai tynnu'r peilonau yn drawsnewidiol gyda thrigolion lleol yn cael y cyfle i fwynhau'r Aber a'r golygfeydd clir
- Bod y Grŵp Ymgynghori yn cynnwys nifer o randdeiliaid sydd yn gefnogol i'r cynllun ac wedi bod yn rhan o fanylder y cynllun ers 2015

- Bod cynlluniau'r ddau compownd yn wahanol mewn ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus
- Bod Awdurdod Cynllunio'r Parc Cenedlaethol wedi caniatáu y cais heb unrhyw wrthwynebiadau
- Byddai'r cynllun yn hwb i fusnesau lleol ac yn dod a buddion amgylcheddol, hamdden ac economaidd i'r ardal brydferth
- Byddai'r cynllun yn adfer harddwch naturiol yr ardal
- Ei bod yn fraint bod yn rhan o gynllun sydd yn trawsnewid ardal i'r fath raddfa

c) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd yr Aelod Lleol y pwyntiau canlynol:-

- Ei fod yn gefnogol i'r cynllun
- Bod y peilonau fel creithiau ar dir sydd yn brydferth a phwysig
- Bod y trafodaethau gyda National Grid i'w canmol – wedi bod yn agored iawn
- Mai'r ffordd i'r pen twnnel yw'r ffordd wreiddiol i'r chwarel cyn i'r ffordd osgoi gael ei hadeiladu ac felly gyda hanes trafnidiaeth drwm
- Cefnogi'r bwriad o waredu'r peilonau o aber prydferth

ch) Cynigiwyd ac eiliwyd i ganiatáu y cais

d) Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Byddai gwaredu'r peilonau yn welliant i'r ardal ac i dwristiaeth
- Byddai'r golygfeydd yn gwella ar ôl i'r peilonau gael eu tynnu i lawr
- Y cynllun yn sicr yn un i'w groesawu – yn welliant mewn ardal sensitif
- Croesawu'r bwriad i gyflogi yn lleol

- Croesawu'r egwyddor ond anodd cefnogi cynllun fydd yn cyfrannu at dlodi ynni

**PENDERFYNWYD caniatáu y cais gydag amodau:**

1. **5 mlynedd**
2. **Unol â'r cynlluniau a'r asesiadau a gyflwynwyd fel rhan o'r cais**
3. **Lliw ffens**
4. **Priffyrdd**
5. **Cefnffyrdd**
6. **Amodau CNC**
7. **Dŵr Cymru**
8. **Oriau gwaith – ac amodau eraill Gwarchod y Cyhoedd**
9. **Bioamrywiaeth**
10. **Archeolegol**
11. **CEMP**
12. **Cynllun rheoli tirweddu a monitro**

**Nodiadau**
**Priffyrdd**
**Dŵr Cymru**

**Dylai'r holl weithrediadau sy'n cynnwys gwaredu, trin neu adfer deilliannau twnnel gael eu cyflawni yn unol â hierarchaeth gwastraff ac amcanion y cynllun rheoli gwastraff amlinellol. Cysylltwch â Gwasanaeth Cynllunio Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â gofynion y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol neu statws cynllunio unrhyw**

**gyfleuster rheoli gwastraff neu safle arall a nodwyd ar gyfer derbyn, trin neu waredu unrhyw ddeilliant gwastraff.**

**7. CAIS RHIF: C20/0066/03/AC CHWAREL YR OAKLEY, BLAENAU FFESTINIOG LL41 3ND.**

Cais o dan Adran 73 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i amrywio amod 1 ar ganiatâd cynllunio C01M/0014/03/MW i barhau gweithredu busnes sefydledig am 20 mlynedd ychwanegol hyd at 31 Ionawr 2040

Tynnwyd sylw at y ffurflen sylwadau hwyr a dderbyniwyd

a) Ymhelaethodd yr Uwch Swyddog Cynllunio Mwynau a Gwastraff ar gefndir y cais gan nodi ei fod yn un o 3 cais cynllunio i newid amodau ar ganiatâd cynllunio a gweithrediad sydd eisoes yn bodoli ar safle Chwarel yr Oakley er mwyn ymestyn oes y gwaith mwynau i sicrhau bod gweithrediad y felin yn parhau. Nodwyd mai cais ydoedd i geisio amrywio amod 1 ar ganiatâd cynllunio a roddwyd yn 2001, i barhau i ddefnyddio'r ardal storio ategol, sied a llawr caled am 20 mlynedd ychwanegol.
Amlygwyd bod yr holl bolisïau perthnasol wedi eu hystyried ac nad oedd unrhyw wrthwynebiadau wedi eu derbyn. Nodwyd bod y felin wedi gweithredu heb achosi niwsans gormodol o dan delerau'r amodau presennol am nifer o flynyddoedd a bod materion sŵn a llwch wedi hen sefydlu. Er hynny, nodwyd bod Uned Gwarchod y Cyhoedd wedi datgan yr angen i ddiweddaru'r amodau sŵn a llwch ar y safle. Adroddwyd bod Cynllun Adfer wedi ei gynnwys gyda'r cais ac yn cydymffurfio gyda Pholisi MWYN 3 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn a Pholisi MWYN 9. Mae'r cynllun adfer yn cynnwys creu tirffurf fydd yn ail-greu ac efelychu nodweddion naturiol y ddaear a nodweddion draenio.

b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd yr Aelod Lleol y pwyntiau canlynol:-
- Ei bod yn gefnogol i'r cynllun
- Bod angen gwarchod Afon Bowydd rhag llygredd

c) Cynigiwyd ac eiliwyd i ganiatáu y cais

ch) Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y prif sylwadau canlynol gan aelodau:
- Caniatáu y cais yn hwb i'r economi leol
- Croesawu bod y bwriad yn sicrhau gwaith am 20 mlynedd bellach
- Awgrym i gynnwys amod i warchod Afon Bowydd rhag llygredd

d) Mewn ymateb i'r awgrym i gynnwys amod i warchod Afon Bowydd rhag llygredd / dwr budr mynegodd yr Uwch Swyddog Cynllunio Mwynau a Gwastraff mai Cyfoeth Naturiol Cymru sydd â thrwydded orchwyl dros y gwaith a bod modd adolygu'r amodau / diweddaru'r gweithdrefnau ar sut i ddelio gyda gwaddod.

**PENDERFYNWYD: Dirprwyo'r hawl i Bennaeth Cynorthwyol yr Adran i gymeradwyo'r cais, yn ddarostyngedig i'r newid isod i Amod 1 ar ganiatâd cynllunio C01M/0014/03/MW, i ganiatáu parhau i ddefnyddio'r ardal tir ategol i storio deunyddiau crai:**

- **Rhoddir caniatâd drwy hyn am gyfnod cyfyngedig hyd at 31ain Ionawr 2040, a phan ddaw'r cyfnod i ben bydd holl adeiladau, cyfarpar, peiriannau ac offer wedi cael eu symud a bydd y safle**

**wedyn yn cael ei adfer yn unol â'r cynllun adfer a dderbyniwyd ar - 14eg Ebrill 2020.**

- **Yn ychwanegol at amrywio Amod 1 o'r caniatâd, dylai'r ardal storio deunydd crai, llawr caled a'r sied storio gael amodau sy'n ategol i brif ddefnydd y safle fel gwaith mwynau sy'n prosesu gwastraff llechi i gynhyrchu cynhyrchion llechi gronynnog a phowdrau. Byddai hyn yn sicrhau bod y safle yn parhau i weithredu yn unol â'r allbwn diwygiedig o ddosbarthu dim mwy na 9 llwyth ar unrhyw ddiwrnod gwaith (dydd Llun i ddydd Gwener) a dim mwy na 2 lwyth ar unrhyw ddydd Sadwrn, dydd Sul, Gŵyl y Banc neu Wyliau Cyhoeddus.**

- **Er budd cysondeb a'r gallu i orfodi, dylai'r gyfres ganlynol o reoliadau rheoleiddio a osodwyd ar y caniatâd perthynol (C03M/0010/03/MW), sy'n ymwneud â sŵn ac ansawdd aer hefyd gael eu dyblygu;**

  - **Monitro sŵn yn flynyddol (oni bai y cytunwyd fel arall yn ysgrifenedig)**
  - **Cyfyngu lefel sŵn yn ystod y dydd i 50db**
  - **Cyfyngu lefel sŵn yn ystod y nos i 40db**
  - **Ni fydd unrhyw loriau yn cael eu hanfon o'r safle ac ni fydd unrhyw ddeunyddiau crai yn dod i'r safle y tu allan i 07.00 awr a 22.00 awr.**

- **Nodyn i'r ymgeisydd gyda chyngor statudol Network Rail a Chyfoeth Naturiol Cymru wedi ei atodi i'r hysbysiad penderfyniad.**

- **Nodyn i'r ymgeisydd i annog gweithredwr y safle i ddarparu arwyddion dwyieithog ble fo'n bosib i wella delwedd ddwyieithog y cwmni.**

**8. CAIS RHIF C20/0067/03/AC CHWAREL YR OAKLEY, BLAENAU FFESTINIOG LL41 3ND.**

Cais o dan Adran 73 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i amrywio amod 1 ar ganiatâd cynllunio C03M/0010/03/MW i barhau gweithredu busnes sefydledig am 20 mlynedd ychwanegol hyd at 31 Ionawr 2040

Tynnwyd sylw at y ffurflen sylwadau hwyr a dderbyniwyd

a) Ymhelaethodd yr Uwch Swyddog Cynllunio Mwynau a Gwastraff ar gefndir y cais gan egluro bod y cais yn un ar gyfer amrywio amodau a osodwyd ar y caniatâd gwreiddiol a gymeradwywyd yn 1990 i ddatblygu tir heb gydymffurfio gydag amodau i ganiatáu parhau i weithredu safle'r gwaith o 07.00 awr i 19.00 o ddydd Llun i ddydd Gwener (h.y. gweithredu am 24 awr) ynghyd â chynnydd mewn allbwn o 6 i 9 llwyth o ddeunydd fesul diwrnod gwaith. Roedd y caniatâd hefyd yn caniatáu newid i'r cyfyngiadau ar allyriadau sŵn yn ddarostyngedig i amodau sydd yn gofyn bod y gweithredwr yn gweithredu cynllun monitro sŵn.

   Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau i’r cais arwahan i un llythyr oedd yn nodi pryder bod allyriadau o’r gwaith yn cynnwys nwyon sydd yn

effeithio ar iechyd a llesiant trigolion cyfagos. O ganlyniad, amlygwyd bod Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn mynnu bod yr amodau i reoli sŵn, llwch ac ati yn parhau ar y safle. Ystyriwyd y gall y safle weithredu heb achosi niwsans gormodol i fwynderau'r ardal dan delerau'r amodau sŵn ac ansawdd aer perthnasol.

Mae'n annhebygol y bydd unrhyw newid amlwg yn amodau gweithio'r safle na newid i effaith weledol y gwaith ac ni fydd y datblygiad yn tynnu oddi wrth nodweddion cadarnhaol y dirwedd na'r elfennau hynny sy'n cyfrannu at gymeriad unigryw'r dirwedd hanesyddol na'r cais Safle Treftadaeth y Byd. Bydd gwastraff llechi yn cael ei brosesu a'i drin i gynhyrchu ffelt to ac nid yw cyflenwi deunydd i'r gwaith prosesu yn holl ddibynnol ar y mwynau wrth gefn sydd yn y domen lechi. Mae'r cynllun adfer yn cynnwys trin y ddaear agored wedi i'r gweithrediadau ddod i ben.

O ran sicrhau cyflenwad amgen o ddeunyddiau, bydd egwyddorion mwyngloddio mwynau eilaidd yn dderbyniol ac o ran angen leol, mae'r datblygiad yn cydymffurfio â'r holl bolisiau perthnasol.

b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd yr Aelod Lleol y pwyntiau canlynol:-
- Ei bod yn gefnogol i'r cynllun
- Bod angen gwarchod Afon Bowydd rhag llygredd

c) Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y prif sylwadau canlynol gan aelodau:
- Byddai caniatáu y cais yn hwb i'r economi leol
- Croesawu bod y bwriad yn sicrhau gwaith am 20 mlynedd pellach

ch) Cynigiwyd ac eiliwyd i ganiatáu y cais

**PENDERFYNWYD: Dirprwyo'r hawl i Bennaeth Cynorthwyol yr Adran i gymeradwyo'r cais, yn ddarostyngedig i'r newid isod i Amod 1 ar ganiatâd cynllunio C03M/0010/03/MW, i ganiatáu parhau i ddefnyddio'r gwaith prosesu llechi.**

- **Rhoddir caniatâd drwy hyn am gyfnod cyfyngedig hyd at 31ain Ionawr 2040, a phan ddaw'r cyfnod i ben bydd holl adeiladau, cyfarpar, peiriannau ac offer wedi cael eu symud a bydd y safle wedyn yn cael ei adfer yn unol â'r cynllun adfer a dderbyniwyd ar - Mawrth 2020.**

- **Bydd y datblygiad yn ddarostyngedig i'r un atodlen o amodau dan y caniatâd cynllunio blaenorol C03M/0010/03/MW i reoli sŵn, llwch, dirgryniad, gwarchod yr amgylchedd dŵr, oriau gweithredu, allbwn, cydymffurfio â chynlluniau'r cais, adolygu gweithrediadau ac adfer ond yn benodol;**

    - **Cyfyngu lefel sŵn yn ystod y dydd i 50db**
    - **Cyfyngu lefel sŵn yn ystod y nos i 40db**
    - **Cau gwaith y malwr sylfaenol i lawr dros nos**
    - **Holl ddrysau/caeadau i gael eu cadw wedi eu cau dros nos**
    - **Ni cheir ailgychwyn y gwaith ar ôl 22.00 awr (pe byddai'r gwaith yn torri i lawr dros nos ni fydd yn ail ddechrau tan y diwrnod canlynol)**
    - **Ni weithredir y malwr allanol rhwng 07.00 awr a 22.00 awr.**
    - **Ni fydd unrhyw loriau yn cael eu llwytho y tu allan i 07.00 awr a 22.00 awr.**

- **Bydd y cynnyrch gaiff ei orffen dros nos yn cael ei storio yn y prif adeilad tan y diwrnod canlynol**

- **Nodyn i'r ymgeisydd gyda chyngor statudol Network Rail a Chyfoeth Naturiol Cymru wedi ei atodi i'r hysbysiad penderfyniad.**

- **Nodyn i'r ymgeisydd i annog gweithredwr y safle i ddarparu arwyddion dwyieithog ble fo'n bosib gwella delwedd ddwyieithog y cwmni.**

**9. CAIS RHIF C20/0079/03/AC CHWAREL OAKLEY FFESTINIOG, BLAENAU FFESTINIOG LL41 3ND.**

Cais o dan Adran 73 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i amrywio amod 1 ar ganiatâd cynllunio C10M/0103/03/MW i barhau gweithredu busnes sefydledig am 20 mlynedd ychwanegol hyd at 31 Ionawr 2040

Tynnwyd sylw at y ffurflen sylwadau hwyr a dderbyniwyd

a) Ymhelaethodd yr Uwch Swyddog Cynllunio Mwynau a Gwastraff ar gefndir y cais gan nodi mai cais ydoedd i barhau i echdynnu mwynau o'r tomenni llechi am 20 mlynedd ychwanegol.

Adroddwyd nad yw cyflenwi deunydd i'r gwaith prosesu yn holl ddibynnol ar y mwynau wrth gefn sydd yn y domen lechi, ac fe ragwelir y bydd yn parhau am tua 5 mlynedd arall. Er mwyn peidio ag oedi gyda gweithredu cynllun adfer i arwynebau'r tomenni sydd wedi eu tarfu, ystyriwyd cymeradwyo caniatâd am 5 mlynedd arall. Bydd unrhyw newid i Amod 1 o ganiatâd cynllunio C10M/0103/03/MW yn adlewyrchu'r tunelli o fwynau wrth gefn sydd ar gael yn ardal y cais. Yn dilyn trafodaethau gyda'r ymgeisydd, cytunwyd y byddai caniatâd 5 mlynedd yn rhoi amser digonol i symud gweddill y domen lechi.

Byddai'r gwaith o dynnu'r tomenni yn amodol i gynllun graddol o echdynnu gyda'r posibilrwydd o welliant mwy cadarnhaol yn yr hirdymor unwaith fo'r ardaloedd adfer wedi ymdoddi i'r bryniau cyfagos a'r llystyfiant naturiol. Ystyriwyd y gall y safle weithredu heb achosi niwsans gormodol i fwynderau'r ardal dan delerau'r amodau cyfredol i dynnu a phrosesu llechi.

Cefnogwyd yr elfen o ddefnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu / hailddefnyddio i roi llai o bwysau ar adnoddau sylfaenol. O ran sicrhau cyflenwad amgen o ddeunyddiau, bydd egwyddorion mwyngloddio mwynau eilaidd yn dderbyniol ac o ran angen leol, roedd y datblygiad yn cydymffurfio a'r polisïau perthnasol.

Mewn ymateb i gwestiwn a fydd y tipiau yn diflannu, nodwyd bydd y tipiau yn cael eu graddio gyda'r deunydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y cynllun adfer.

b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd yr Aelod Lleol y pwyntiau canlynol:-

- Ei bod yn gefnogol i'r cynllun
- Bod angen gwarchod Afon Bowydd rhag llygredd

c) Cynigiwyd ac eiliwyd i ganiatáu y cais

**PENDERFYNWYD: Dirprwyo'r hawl i Bennaeth Cynorthwyol yr Adran i**

**gymeradwyo'r cais, yn ddarostyngedig i'r newid isod i Amod 1 ar ganiatâd cynllunio C10M/0103/03/MW, i adlewyrchu'r tunelli o fwynau wrth gefn sydd ar gael yn ardal y cais:**

- **Daw'r gwaith o echdynnu gwastraff a'r gweithrediadau ategol i ben erbyn 31/12/2025. Erbyn y dyddiad hwnnw, bydd yr holl beiriannau, adeiladau a strwythurau sy'n perthyn i, neu wedi eu lleoli o ganlyniad i'r caniatâd cynllunio hwn yn cael eu tynnu erbyn y dyddiad hwnnw. Bydd gwaith adfer y safle wedi ei gwblhau erbyn 31/12/2027.**

- **Bydd y datblygiad yn ddarostyngedig i'r un atodlen o amodau dan y caniatâd cynllunio blaenorol C10M/0103/03/MW i reoli sŵn, llwch, dirgryniad, gwarchod yr amgylchedd dŵr, oriau gweithredu, allbwn, cydymffurfio â chynlluniau'r cais, tirffurf arfaethedig, mesurau lliniaru ecolegol, adolygu gweithrediadau a gwaith adfer dilyniadol.**

- **Nodyn i'r ymgeisydd gyda chyngor statudol Network Rail a Chyfoeth Naturiol Cymru wedi ei atodi i'r hysbysiad penderfyniad.**

- **Nodyn i'r ymgeisydd i annog gweithredwr y safle i ddarparu arwyddion dwyieithog ble fo'n bosib gwella delwedd ddwyieithog y cwmni.**

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00 y.b. a daeth i ben am 12.30 y.h.

**CADEIRYDD**